Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Aelodaeth QAA yng Nghymru 2023-24

Mewn amgylchedd addysg uwch a thrydyddol sy'n newid yn gyflym, mae Aelodaeth QAA yn darparu gweithgareddau ac adnoddau ysbrydoledig ac arbenigol sy'n eich galluogi i ddangos rhagoriaeth mewn ansawdd a safonau i gynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol.

**'Mae aelodaeth yr ASA yn cynnig i Brifysgol Bangor rhwydweithiau cydweithredol a'r adnoddau sydd eu hangen arnom i ddarparu addysg drawsnewidiol I'n myfyrwyr. Rydym yn gwerthfawrogi agwedd gydweithredol yr ASA at godi safonau trwy drafodaeth golegol ac yn cydnabod ei rôl allweddol o ran cynnal uniondeb Addysg Uwch Gwledydd Prydain ar lwyfan rhyngwladol. Fel ein corff ansawdd dynodedig yng Nghrymu, mae'r ASA yn datblygu dull gwella sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliannau traws-sector am flynyddoedd i ddod.'**

Dr Myfanwy Davies, Pennaeth Gwella Ansawdd ac Uwch ddarlithydd, Bangor University



## Yn ystod sesiwn 2023-24, bydd QAA yn cynnig cymorth i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru drwy'r canlynol:

### Gweithgaredd adolygu

- Cyflwyno blwyddyn gyntaf y Dull Adolygu Gwella Ansawdd newydd mewn partneriaeth â'r sector.
- Datblygu a gwella cymorth i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau, fel Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr a myfyrwyr sy'n cyfarfod â'r tîm adolygu, drwy ailddatblygu Canllaw Myfyrwyr QAA a chymorth ychwanegol.
- Ymgymryd ag adrodd thematig ar ddeilliannau Adolygiadau Gwella Ansawdd ac Adolygiadau Ansawdd Porth (Cymru) blaenorol, yn ogystal â chynhyrchu Cyfeiriadur o Ganfyddiadau Adolygiadau, i nodi tueddiadau, deilliannau a meysydd gwelliant allweddol yn y sector.
- Parhau i gynnal Adolygiadau Ansawdd Porth (Cymru) ar ran CCAUC.

## Gweithgaredd gwelliant

- Trefnu Rhwydwaith Ansawdd Cymru a chynorthwyo'r Rhwydwaith i barhau i fod yn fforwm allweddol ar gyfer ymarferwyr ansawdd yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i gael ei arwain gan aelodau ac yn hyrwyddo arfer da a dysgu ar draws y sector.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd cyswllt sefydliadol i sicrhau bod ein haelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf gan QAA, ymagwedd wedi'i theilwra'n benodol at Aelodaeth QAA a'r cyfle i rannu arferion a heriau cyfredol y gall QAA gynnig cymorth i ymwneud â nhw.
- Gweithio gyda CCAUC i ddatblygu rhaglen gynyddol o weithgarwch gwelliant cydweithredol er mwyn cefnogi'r sector, gan adeiladu ar Brosiectau Gwelliant Cydweithredol a ariannwyd yn flaenorol a gweithgarwch ehangach.
- Parhau â chyfathrebiadau pwrpasol rheolaidd drwy ein cylchlythyr chwarterol, sy'n amlygu cyfleoedd i aelodau ac yn hyrwyddo gweithgareddau o bob rhan o'r sector trydyddol ehangach.

## Dylanwad a mewnwelediad polisi

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid sector allweddol gan gynnwys CCAUC, UCM Cymru, Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, Llywodraeth Cymru, Estyn, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd QAA yn parhau i gynorthwyo â gweithrediad Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, gan gynnig cyngor, profiad a mewnwelediad ar y dirwedd ansawdd mewn addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt.
- Ymgynghori, ymgysylltu a chyfrannu at gyrff a grwpiau sector gan gynnwys Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru a grwpiau ColegauCymru.
- Sicrhau bod QAA yn ymatebol i anghenion y sector addysg uwch yng Nghymru drwy Bwyllgor Cynghori Strategol QAA Cymru, a fydd yn parhau i gynghori Bwrdd QAA.
- Hyrwyddo ein hymrwymiad i'r Gymraeg gan weithredu fwyfwy fel sefydliad dwyieithog a hyrwyddo pwysigrwydd cyfleoedd addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gweithio ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

- Adeiladu ar y diddordeb a'r ymrwymiad i gydweithio rhwng y sectorau addysg uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hyrwyddo partneriaeth, rhannu arfer, cyfleoedd i wella profiad myfyrwyr a nodi dulliau ar y cyd ar gyfer y dyfodol.



## Buddion i’ch sefydliad cyfan

- **Gwylio’r gorwel:** eich darparu â’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y DU ac yn fyd-eang.
- **Dylanwadu ar strategaeth a pholisi:** sicrhau bod llywodraethau a chyrff allweddol eraill yn gweithredu ar sail cyngor a phrofiad arbenigol.
- **Cyd-greu cyfeirbwyntiau ar gyfer y sector:** rhoi llais cryf i chi, gan sicrhau bod cyfeirbwyntiau’r DU a rhai rhyngwladol yn adlewyrchu eich anghenion chi ac anghenion eich myfyrwyr.
- **Bod yn rhan o gymuned aelodaeth effeithiol:** hwyluso dysgu a rhannu mewnwelediadau ar draws sefydliadau a gyda phartneriaid eraill megis cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio.
- **Ysgogi arloesedd:** datblygu dulliau arloesol o werthuso ac adrodd ar ansawdd sy’n gwella effeithiolrwydd ac yn mynd i’r afael â gofynion mewnol ac allanol.
- **Grymuso eich staff:** cynorthwyo â datblygiad proffesiynol eich staff, eu galluogi i ddiogelu safonau academaidd a gwella ansawdd ar gyfer eich myfyrwyr.

### Beth sy’n gynwysedig

- Gweminarau a gweithdai
- Pecynnau cymorth
- Rhwydweithio
- Digwyddiadau a chynadleddau
- Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol
- Prosiectau Gwelliant Cydweithredol
- Dogfennau canllaw
- Cymorth ansawdd unigol
- Briffio ar bolisi a strategaeth
- Adnoddau ymarferol

## Ein cymuned aelodaeth wedi’i theilwra i chi

**Yn 2023 mae gennym dros 300 o aelodau yn y DU**

Mae ein gweithgareddau wedi’u teilwra i wahanol fathau o ddarparwyr, ac mae gennym gyfleoedd i staff a myfyrwyr ym mhob rôl. Mae ein rhwydweithiau uchel eu gwerth yn cynnwys colegau; darparwyr annibynnol ac arbenigol; myfyrwyr; arweinwyr rhaglen; uwch reolwyr academaidd; ac arweinwyr ansawdd.

**Darparu cymorth a datrysiadau ar gyfer...**

- Undebau Myfyrwyr
- Ansawdd
- Partneriaethau
- Data a gwybodaeth
- Adrannau academaidd ac arweinyddiaeth
- Uwch arweinyddiaeth
- Datblygiad rhyngwladol a byd-eang

# Eich helpu gyda'ch blaenoriaethau

Mae ein gweithgareddau'n cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys:

### Ymagweddau at ddysgu, addysgu ac asesu yn y dyfodol

Cynllunio a chyflwyno asesiadau; Addysg sy'n seiliedig ar gymhwysedd; Deilliannau gwahaniaethol a bylchau mewn dyfarniadau; Ymgysylltiad myfyrwyr

### Prosesau gwerthuso ac ansawdd

Prosesau ansawdd arloesol; Gwerthuso effeithiol; Tystiolaethu gwerth; Budd addysgol; Defnyddio data

### Llwybrau hyblyg a phontio myfyrwyr

Cymwysterau modiwlaidd a micro-gymwysterau; Pontio myfyrwyr; Creu ymdeimlad o berthyn

### Cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth

Gwreiddio sgiliau; Cefnogi menter ac entrepreneuriaeth; Cymorth gyrfaoedd; Prentisiaethau

### Ansawdd a Safonau

Datganiadau Meincnod Pwnc; Dosbarthiadau gradd; Datblygu Côd Ansawdd y DU; Gweithio gyda chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio; Cyflwyno a dyfarnu mewn partneriaethau

### Uniondeb academaidd

Effaith deallusrwydd artiffisial; Darpariaeth ôl-raddedig; Gwreiddio'r Siarter Uniondeb Academaidd; Rheoli camymddwyn

### Ymgysylltiad byd-eang

Adnoddau yn y gwledydd; Datblygu partneriaethau; Cefnogi a gwella profiad myfyrwyr rhyngwladol; Sicrhau bod gan AU y DU lais cryf yn Ewrop a ledled y byd

### Prosiectau Gwelliant Cydweithredol

Dros 40 o brosiectau ar bynciau blaenoriaeth gan gynnwys: Amrywioldeb a chynhwysiant; Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy; Llesiant meddwl; Addysgeg y dyfodol; Arsylwi gan gymheiriaid

### Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant

Rhaglenni hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol a chyfleoedd datblygu, gan gynnwys Cyflwyniad i Ansawdd ac Ansawdd ar Waith



## Archwiliwch eich aelodaeth

Rydym wrth ein bodd yn clywed eich awgrymiadau, adborth a chwestiynau. Mae gan bob darparydd Reolwr Ymgysylltu ar gyfer yr Aelodaeth a gallwch hefyd gysylltu drwy e-bost.

Ewch i mewn i Safle Adnoddau'r Aelodaeth

Cofrestrwch ar gyfer digwyddiadau

Gallwch ganfod mwy am Aelodaeth QAA

Cofrestrwch ar gyfer ein Cylchlythyr Aelodau a chylchlythyr QAA Cymru

## Adnewyddu eich aelodaeth ar gyfer 2023-24

Mae adnewyddu yn syml. Byddwn yn anfon e-bost atoch ym mis Mehefin ynghylch y broses adnewyddu.

Rydym bob amser ar gael i helpu. Cysylltwch â'ch cyswllt QAA neu anfonwch e-bost atom.

ARCAdmin@qaa.ac.uk

Cyhoeddwyd - 20 Ebrill 2023
© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2023
Rhifau elusen cofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk